


1872

Ysgol Fusnes
**Aberystwyth**
Business School

# Meistr Gweithredol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | p.1 |
| Pam dewis Prifysgol Aberystwyth? | p.3 |
| Pam astudio'r rhaglen MBA Gweithredol yn Aberystwyth? | p.5 |
| Pa gyrsiau sydd ar gael? | p.6 |
| MBA Gweithredol Byd-Eang (EMBA) | p.8 |
| MBA  Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth (EMMgt) | p.10 |
| Gofynion mynediad | p.12 |


**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Hydref 2022), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso i Ysgol Fusnes Aberystwyth (ABS)

Croeso i Ysgol Fusnes Aberystwyth. Rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried ein dewis ni ar gyfer eich datblygiad proffesiynol.

Rydym yn Ysgol Fusnes fodern, flaengar sy'n rhan o Brifysgol draddodiadol uchel ei pharch a chanddi gyfoeth o hanes yn dyddio'n ôl i 1872.  Mae ein rhaglenni Gweithredol wedi'u cynllunio ar gyfer rheolwyr sydd ar wahanol gamau o ran eu datblygiad.

Os mai megis cychwyn yr ydych ar eich gyrfa ym maes rheolaeth, bydd y cyrsiau MBA ac MBA Proffesiynol yn diwallu eich anghenion. Os yw eich gyrfa eisoes ar droed a bod arnoch eisiau diweddaru eich gwybodaeth am fusnes a rheolaeth a mireinio eich sgiliau arwain, dylai'r rhaglen MBA Gweithredol (EMBA) fod yn addas ar eich cyfer. Ac os bydd angen i chi ddangos effaith uniongyrchol ar eich sefydliad yn sgil eich astudiaethau, neu os ydych chi'n chwilio am raglen fwy hyblyg y gellir ei theilwra ar eich cyfer, dylai'r Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth (EMMgt) apelio atoch.

Mae pob un o'n rhaglenni wedi'u cynllunio i feithrin y sgiliau arwain a'r wybodaeth am reoli sydd eu hangen er mwyn bod yn arweinydd gwydn ac effeithiol mewn cyfnod cymhleth ac ansicr. Mae angen i reolwyr allu gwneud penderfyniadau heb ddigon o ddata neu, ar brydiau, ar sail cymaint o ddata fel eu bod yn cael eu llethu. Mae MBA Aberystwyth yn cyflwyno'r sgiliau diagnostig, dadansoddol a beirniadol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniadau mwy effeithiol ac er mwyn arwain mewn modd mwy cadarnhaol a gwydn. Mae ein rhaglenni yn eich annog i roi damcaniaethau ar waith yn ymarferol, ac maent oll wedi'u cynllunio i'ch galluogi i gyflawni eich swydd yn fwy effeithiol ac i ddatblygu eich gyrfa.

Hoffwn ddiolch ichi eto am ein hystyried ni wrth ichi wneud y penderfyniad pwysig hwn o ran eich gyrfa a'ch bywyd. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, mae croeso mawr ichi gysylltu â Chyfarwyddwr y Rhaglen ar unrhyw adeg: Vincenzo Dispenza (vid12@ aber.ac.uk)

**Yr Athro Andrew Thomas**
**Cyfarwyddwr**
**Ysgol Fusnes Aberystwyth**







# Pam dewis Prifysgol Aberystwyth?

Drwy ddewis Prifysgol Aberystwyth byddwch yn dewis canolfan ddysg mewn lleoliad heb ei ail. Ar lannau arfordir y gorllewin rhwng Bae Ceredigion a Mynyddoedd y Cambria, byddwch yn rhan o gymuned gyfeillgar, eang ei gorwelion, lle mae'r gorwel pell yn ysgogi uchelgais a dyhead. Mae myfyrwyr yn dod yma ers 1872, wedi'u denu gan ein henw da am ddysgu rhagorol a phrofiad eithriadol ein myfyrwyr.

Cipolwg - mwy o resymau dros ddewis astudio yn Aberystwyth:

**Y Brifysgol gorau yn y DU ar gyfer ansawdd dysgu a phrofiad myfyrwyr**
(The Times / Sunday Times, Good University Guide 2021)

**Prifysgol y flwyddyn yng Nghymru**
(The Times and Sunday Times, Good University Guide 2020)

**Gwobr Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr 2018**
(FfRhA 2018)

**Y Brifysgol Orau yn y DU am Ansawdd y Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr**
(Good University Guide, The Times a Sunday Times 2021)

**Mae 98% o ymchwil Prifysgol Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu uwch**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil [REF] 2021)

**Mae 75% o ymchwil Prifysgol Aberystwyth yn arwain y byd gyda 4* neu ragorol yn rhyngwladol gyda 3***
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil [REF] 2021)

**1af yng Nghymru a Lloegr am Fodlonrwydd Myfyrwyr**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022)

**97% o'n graddedigion mewn gwaith a/neu astudiaethau pellach o fewn chwe mis ar ôl graddio, 3% yn uwch na graddedigion Astudiaethau Busnes a Gweinyddu yn genedlaethol.**
(Higher Education Statistics Authority 2018).






# Pam astudio'r rhaglen MBA Gweithredol yn Aberystwyth?

## Y safonau uchaf

Mae rhaglenni Meistr Gweithredol Ysgol Fusnes Aberystwyth yn cynnig cynnwys arloesol sy'n seiliedig ar ymarfer a'r syniadau diweddaraf ym mhob agwedd ar fusnes a rheolaeth.

Mae'r rhaglenni Meistr Gweithredol wedi'u teilwra ar gyfer arweinwyr sefydledig sydd â'u bryd ar sicrhau perfformiad dylanwadol ar gyfer eu busnesau.

Fel un o'n cyn-fyfyrwyr MBA, byddwch yn ymuno â rhwydwaith byd-eang o gyn-fyfyrwyr llwyddiannus, uchel eu parch mewn nifer fawr o sectorau

## Lleoliad

Er mwyn diwallu anghenion gweithwyr proffesiynol, mae fformat y rhaglen wedi'i gynllunio i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o amser yn yr ystafell ddosbarth, gan olygu y byddwch yn treulio cyn lleied o amser â phosibl oddi wrth eich gwaith.

Mae'r rhaglenni Meistr Gweithredol yn cael eu cynnig trwy ddau ddull, sef ar-lein yn llwyr neu trwy gyfrwng dosbarthiadau/gweithdai traddodiadol ar ein prif safle dysgu yn Aberystwyth.

## Y syniadau diweddaraf

Mae'r rhaglen Meistr Gweithredol wedi'i chynllunio i roi ichi amrywiaeth o sgiliau uwch ym maes damcaniaeth ac arwain busnes - sgiliau y gallwch eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac amgylcheddau busnes.

Byddwch yn gwella'r sgiliau busnes sydd gennych eisoes, a'r gallu i strwythuro a chyfleu syniadau yn effeithiol, ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol a siarad â hwy, gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol a'i threfnu, gweithio gydag eraill a'u harwain a gweithio o fewn amserlenni ac i derfynau amser pendant er mwyn darparu strategaethau busnes hynod o ddylanwadol a fydd yn gwella effeithiolrwydd eich busnes.

## I bwy?

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer ymgeiswyr sy'n arweinwyr strategol ar hyn o bryd a chanddynt gyfrifoldebau uwch-reoli, a allai gynnwys cyfrifoldebau ffurfiol o ran llywodraethu/bod yn gyfarwyddwyr.

Gall cyfrifoldebau'r ymgeiswyr gynnwys pennu strategaethau, cyfeiriad a gweledigaeth, rhoi ymdeimlad clir o ddiben a sbarduno'r bwriad strategol.

# Ffioedd Dysgu ar gyfer mynediad ym mis Medi 2022:

**Ymgeiswyr o'r DU:**

Rhan Amser - £16,480

Dysgu o Bell - £12,360

**Ymgeiswyr Rhyngwladol:**

Rhan Amser - £19,365

Dysgu o Bell - £12,360

# Pa gyrsiau sydd ar gael?

Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth yn cynnig dwy raglen Meistr Gweithredol yn rhan-amser, a hynny wyneb yn wyneb neu trwy ddysgu o bell.

- MBA Gweithredol Byd-Eang (EMBA) - **N1835**
- MBA Gweithredol Byd-Eang (EMBA) Dysgu o bell - **N1835D**
- Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth (EMMgt) - **N1836**
- Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth (EMMgt) Dysgu o bell - **N1836D**

Fel ymgeisydd ar y rhaglen Meistr Gweithredol, byddwch yn astudio'r damcaniaethau diweddaraf ym maes rheolaeth a'r arferion gorau cydnabyddedig mewn meysydd megis arweinyddiaeth, gweithrediadau strategol, llywodraethu corfforaethol a chynaliadwyedd.

Wrth astudio dadansoddi a gwneud penderfyniadau ariannol ceir pwyslais ar ddefnyddio data ariannol a data cyfrifeg yn sail i benderfyniadau a gweithrediadau strategol, ac i wella'r penderfyniadau a'r gweithrediadau hynny.

Mae'r drafodaeth ar economeg busnes yn rhoi'r sail i wneud penderfyniadau busnes mewn amrywiaeth o feysydd gweithredol.

Penllanw'r rhaglenni yw cwblhau prosiect clo ymarferol pan fyddwch yn defnyddio eich gwybodaeth newydd i fynd i'r afael â phroblem neu her mewn sefydliad neu ddiwydiant.

Mae'r rhaglen Meistr Gweithredol yn defnyddio nifer o wahanol strategaethau dysgu gan ddibynnu ar y dull astudio:

- grwpiau trafod dan ofal hwylusydd yn canolbwyntio ar werthuso atebion strategol a dadansoddi'r modd y cânt eu rhoi ar waith mewn amgylcheddau busnes amrywiol
- sesiynau seminar wedi'u cyflwyno gan arweinwyr busnes arbenigol yn nodi problemau, heriau a chyfleoedd o fyd busnes go iawn, gyda thrafodaethau dilynol ynghylch sut y datblygwyd arferion da a'u hymgorffori yn eu busnesau
- ymarferion gweithio mewn tîm i grwpiau bach lle bydd yr ymgeiswyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig atebion busnes effeithiol i sefyllfaoedd penodol pan fydd angen rhoi'r ystyriaeth ddyledus i faterion economaidd, materion ariannol ac adnoddau
- cymorthfeydd academaidd yn canolbwyntio ar wella eich sgiliau meddwl yn academaidd a'ch sgiliau ysgrifennu.

Bydd y dysgu o bell yn gyfuniad o weithgareddau cydamserol ac anghydamserol, a'r cyfan yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng ein platfform dysgu rhithiol.





# Gweithredol Byd-Eang

## MBA (EMBA) - N1835

Mae MBA Gweithredol Byd-Eang (EMBA) Aberystwyth yn rhaglen ran-amser i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth sydd wedi'i hanelu at reolwyr profiadol sydd eisiau datblygu neu ddiweddaru eu gwybodaeth am reoli a mireinio eu sgiliau arwain.

### Crynodeb

Ceir yr un faint o bwyslais ar ddysgu ag ar addysgu. Fe'ch anogir i rannu eich profiadau gwerthfawr mewn amgylchedd dysgu heriol ond cefnogol ac mewn arddull dysgu gweithredol sy'n annog rhoi damcaniaethau ar waith a datblygu a defnyddio damcaniaethau yn ymarferol. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu a'i ategu ymhellach trwy ddadansoddi astudiaethau achos.

Erbyn diwedd y cwrs MBA Gweithredol Byd-eang, bydd gennych afael mwy datblygedig a manwl ar fusnes, rheolaeth a sefydliadau, a hynny o safbwynt pobl, marchnadoedd, gweithrediadau a'r gadwyn gyflenwi, economeg, llywodraethu corfforaethol, moeseg, cynaliadwyedd a strategaeth. Byddwch hefyd yn gallu meddwl yn fwy strategol a byddwch yn ychwanegu gwerth yn uniongyrchol i'ch sefydliadau chi.

### Manylion y cwrs

Mae'r MBA Gweithredol Byd-eang yn rhaglen ran-amser y gellir ei hastudio dros dair blynedd. Gallwch hefyd ddewis dysgu o bell 100% os nad yw'n bosibl ichi ddod i'r campws.

I'r myfyrwyr hynny sy'n astudio wyneb yn wyneb, bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn blociau pythefnos o hyd pan fydd dau fodiwl yn cael eu dysgu y naill ar ôl y llall - hynny yw, wythnos o ddysgu dwys fesul modiwl. Ceir tri bloc astudio yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'r strwythur hwn yn galluogi myfyrwyr i gwblhau chwe modiwl yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cynhelir y dysgu o bell mewn blociau 7 wythnos o hyd, a bydd y dysgu a'r asesu i gyd ar-lein.

### Dysgu ac Addysgu

Nod yr MBA Gweithredol Byd-eang yw datblygu sgiliau diagnostig, beirniadol, dadansoddol a gweithredol, a meithrin y sgiliau a'r ymwybyddiaeth i ddod yn arweinydd ac yn rheolwr newid sefydliadol sy'n fwy cadarnhaol, yn fwy dyfeisgar ac yn fwy gwydn.

Bydd y myfyrwyr yn astudio chwe modiwl craidd (20 credyd yr un) sy'n cwmpasu ystod o bynciau allweddol ym maes busnes a rheolaeth, cyn mynd ati i gwblhau darn o ymchwil ymarferol (60 credyd) sy'n canolbwyntio ar sefydliad neu ddiwydiant o'u dewis. Dyfernir yr MBA Gweithredol ar sail cwblhau pob un o'r 180 o gredydau astudio yn llwyddiannus.

Mae'r asesu trwy gydol y rhaglen yn seiliedig ar waith cwrs: adroddiadau ysgrifenedig, dadansoddi astudiaethau achos a chyflwyniad. Yn unol â naws ddatblygiadol y rhaglen, ni cheir unrhyw arholiadau ffurfiol.

**Mae'r modiwlau a addysgir canlynol wedi'u datblygu i wella'ch gwybodaeth am fusnes a rheolaeth:**

- Strategic Supply Chain & Operations Management
- International Business Economics
- Leading People & Organisations
- Financial Management & Strategic Decision-making
- Strategic Marketing Management
- Strategic Governance, Ethics & Sustainability.

**A:**

- Executive Management Report (International Finance)

**Neu:**

- Executive Management Report (International Business)





### Yr Amgylchedd Dysgu

Bydd staff dysgu Ysgol Fusnes Aberystwyth yn creu amgylchedd lle gall dysgu ymarferol ffynnu a byddant yn hwyluso rhannu profiadau a gwybodaeth. Gwyddom fod myfyrwyr ar gyrsiau Meistr yn bobl hynod o brysur, ond disgwyliwn i fyfyrwyr fuddsoddi amser 'y tu hwnt i'r dosbarth' yn paratoi ar gyfer gweithdai, yn ymchwilio ac yn ysgrifennu aseiniadau.

Bydd y strwythur dysgu yn hwyluso gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau a modelau yn feirniadol a'u rhoi ar waith yn ymarferol, yn hytrach na dim ond rhoi disgrifiad syml ohonynt. Defnyddir amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol i hwyluso'r broses hon.

Anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r amgylchedd dysgu rhithiol i'w cynorthwyo i weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau, a byddant yn cael cefnogaeth academaidd gan diwtoriaid pob modiwl.

Bydd y myfyrwyr hynny sy'n astudio trwy Ddysgu o Bell yn cael cyfuniad o weithgareddau cydamserol (byw, amser real) a rhai anghydamserol (ar amser o ddewis y myfyriwr, ac ar eu cyflymder eu hunain).

Er mwyn gallu cydymffurfio ag amserlenni dysgu ar y campws, bydd y gwaith dysgu ar fodiwlau yn digwydd ar amserau penodol.

### Datblygiad Proffesiynol

Mae graddedigion ein rhaglenni Meistr ym maes Rheolaeth wedi mynd yn eu blaenau i sefydlu gyrfaoedd gydag amrywiaeth o gwmnïau megis Bloomberg, Standard Chartered Bank, Euler Hermes, SAP a Legal & General. Mae ein cyn-fyfyrwyr yn uwch reolwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, neu'n rhedeg eu busnesau neu eu cwmnïau ymgynghori eu hunain.

Mae'r sgiliau myfyriol ac atblygol a ddysgir ar y rhaglen yn galluogi myfyrwyr i werthuso eu hanghenion personol a phroffesiynol yn well. Rydym yn canfod bod ein myfyrwyr wedi eu paratoi'n well i gynllunio eu gyrfaoedd. Rydym yn cynnig cyngor gyrfaol proffesiynol unigol, a gellir gofyn hefyd am hyfforddiant ychwanegol gan hyfforddwr datblygu arweinyddiaeth 360 gradd sydd wedi'i achredu.

# Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth

## MBA (EMMgt) - N1836

Nod y cwrs Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth yw datblygu sgiliau diagnostig, beirniadol, dadansoddol a gweithredol, a meithrin y sgiliau i ddod yn rheolwr newid sy'n fwy cadarnhaol, yn fwy dyfeisgar ac yn fwy gwydn.

### Crynodeb

Gellir teilwra dwy ran o dair o'r rhaglen (ar ffurf dau brosiect sylweddol) er mwyn diwallu anghenion a diddordebau'r myfyrwyr, ac o'r herwydd mae'n rhwyddach i fyfyrwyr a noddir ddangos i'w cyflogwyr fanteision y rhaglen o ran busnes ac o ran y sefydliad.

Mae'r MBA Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth yn datblygu'r sgiliau diagnostig, beirniadol, dadansoddol a gweithredol sy'n ofynnol er mwyn dod yn arweinydd ac yn rheolwr newid sefydliadol sy'n fwy cadarnhaol, yn fwy dyfeisgar ac yn fwy gwydn.

Erbyn diwedd y cwrs MBA Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth, bydd gennych afael mwy datblygedig a manwl ar agweddau busnes, rheolaeth a sefydliadau. Byddwch hefyd yn gallu meddwl yn fwy strategol am eich sefydliad a byddwch yn ychwanegu gwerth yn uniongyrchol yn y gweithle.

Bydd cyfleoedd ichi rwydweithio â myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni Meistr eraill o fewn yr Ysgol Fusnes, yn enwedig gan fod myfyrwyr yr MBA Gweithredol Byd-eang yn astudio'r tri modiwl hefyd. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael cynnig cyngor ar ddatblygiad proffesiynol er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu eu gyrfaoedd.

### Manylion y cwrs

Mae'r Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth yn rhaglen ran-amser y gellir ei hastudio dros dair blynedd. Gallwch hefyd ddewis dysgu o bell 100% os nad yw'n bosibl ichi ddod i'r campws. (N1836D)

Ceir yr un faint o bwyslais ar ddysgu ag ar addysgu. Anogir myfyrwyr i rannu eu profiadau gwerthfawr mewn amgylchedd dysgu heriol ond cefnogol ac mewn arddull dysgu gweithredol sy'n annog rhoi damcaniaethau ar waith a datblygu a defnyddio damcaniaethau yn ymarferol. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu a'i ategu ymhellach trwy ddadansoddi astudiaethau achos.

### Dysgu ac Addysgu

Dysgu unigol wedi'i negodi fydd dwy ran o dair o'r cwrs Meistr Gweithredol mewn Rheolaeth. Rhaid i'r myfyriwr gwblhau tri modiwl trwy gwrs o blith dewis o saith, ond y tu hwnt i hynny bydd y myfyriwr yn gweithio'n annibynnol dan oruchwyliaeth academaidd arbenigol. Yn yr un modd â gradd ymchwil, bydd gofyn ichi nodi meysydd ymchwil ymarferol sydd o ddiddordeb i chi (a hynny'n aml er mwyn mynd i'r afael â phroblemau neu heriau mewn sefydliad neu ddiwydiant). Cewch eich cyfarwyddo i ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiect ymchwil ac i ysgrifennu adroddiadau sy'n cael effaith.

**The following taught modules have been developed to enhance the students knowledge of buisness and management:**

| | |
|---|---|
| Leading People & Organisations | International Business Economics |
| Strategic Marketing Management | Strategic Supply Chain & Operations Management |
| Financial Management & Strategic Decision-making | Strategic Governance, Ethics & Sustainability. |

**Plus:**

Strategic Improvement Project 1

**Or:**

Strategic Improvement Project 2





Wedi iddynt gwblhau'r elfen o'r rhaglen sy'n cael ei dysgu trwy gwrs, bydd y myfyrwyr wedi dysgu am ddamcaniaethau, cysyniadau, modelau ac arfau allweddol mewn amrywiaeth o feysydd pwnc busnes a rheolaeth. Yn ogystal â hynny, byddant wedi dysgu'r sgiliau myfyriol ac atblygol sy'n ofynnol er mwyn gallu arwain pobl yn effeithiol. Bydd y myfyrwyr yn astudio tri modiwl craidd (20 credyd yr un) ar y cyd â'n myfyrwyr MBA Gweithredol. Mae'r modiwlau'n cwmpasu ystod o bynciau allweddol ym maes busnes a rheolaeth. Yna byddant yn mynd ati i gwblhau dau ddarn o ymchwil ymarferol (60 credyd yr un) sy'n mynd i'r afael â phroblem neu her mewn sefydliad neu ddiwydiant o'u dewis. Dyfernir yr MBA Gweithredol ar sail cwblhau pob un o'r 180 o gredydau astudio yn llwyddiannus.

Bydd yr asesu trwy gydol y rhaglenni yn seiliedig ar waith cwrs: adroddiadau ysgrifenedig, dadansoddi astudiaethau achos a chyflwyniad. Yn unol â naws ddatblygiadol y rhaglen, ni cheir unrhyw arholiadau ffurfiol.

### Yr Amgylchedd Dysgu

Bydd staff dysgu Ysgol Fusnes Aberystwyth yn creu amgylchedd lle gall dysgu ymarferol ffynnu a byddant yn hwyluso rhannu profiadau a gwybodaeth. Gwyddom fod myfyrwyr ar gyrsiau Meistr yn bobl hynod o brysur, ond disgwyliwn i fyfyrwyr fuddsoddi amser 'y tu hwnt i'r dosbarth' yn paratoi ar gyfer gweithdai, yn ymchwilio ac yn ysgrifennu aseiniadau. Bydd y strwythur dysgu yn hwyluso gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau a modelau yn feirniadol a'u rhoi ar waith yn ymarferol, yn hytrach na dim ond rhoi disgrifiad syml ohonynt. Defnyddir amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol i hwyluso'r broses hon.

Anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r amgylchedd dysgu rhithiol i'w cynorthwyo i weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau, a byddant yn cael cefnogaeth academaidd gan diwtoriaid pob modiwl.

Bydd y myfyrwyr hynny sy'n astudio trwy Ddysgu o Bell yn cael cyfuniad o weithgareddau cydamserol (byw, amser real) a rhai anghydamserol (ar amser o ddewis y myfyriwr, ac ar eu cyflymder eu hunain).

Er mwyn gallu cydymffurfio ag amserlenni dysgu ar y campws, bydd y gwaith dysgu ar fodiwlau yn digwydd ar amserau penodol.

### Datblygiad Proffesiynol

Mae ein graddedigion Meistr ym maes Rheolaeth wedi mynd yn eu blaenau i sefydlu gyrfaoedd gydag amrywiaeth o gwmnïau megis Bloomberg, Standard Chartered Bank, Euler Hermes, SAP a Legal & General. Mae ein cyn-fyfyrwyr yn uwch reolwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, neu'n rhedeg eu busnesau neu eu cwmnïau ymgynghori eu hunain.

Mae'r sgiliau myfyriol ac atblygol a ddysgir ar y rhaglen yn galluogi myfyrwyr i werthuso eu hanghenion personol a phroffesiynol yn well. Rydym yn canfod bod myfyrwyr wedi eu paratoi'n well i gynllunio eu gyrfaoedd. Rydym yn cynnig cyngor gyrfaol proffesiynol unigol, a gellir gofyn hefyd am hyfforddiant ychwanegol gan hyfforddwr datblygu arweinyddiaeth 360 gradd sydd wedi'i achredu.

# Gofynion mynediad:

## Cymwysterau neu Brofiad Proffesiynol

Gradd Baglor (anrhydedd) 2:2 ynghyd â 36 mis o brofiad gwaith perthnasol neu gyfwerth. Bydd y rhai nad ydynt yn raddedigion yn cael eu hystyried yn unigol ar sail profiad gwaith perthnasol a/neu gymwysterau proffesiynol.

## Gofynion o ran y Saesneg

Os oes gennych radd Baglor o brifysgol yn y Deyrnas Unedig, nid oes angen ichi sefyll prawf hyfedredd Saesneg.

Bydd y sawl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ac nad ydynt yn cwrdd â'r gofyniad hwn yn gorfod cael IELTS 6.0 neu sefyll prawf hyfedredd Saesneg academaidd sy'n cael ei gydnabod gan y Brifysgol.

## Sut i wneud cais

Gallwch gyflwyno cais yn uniongyrchol i Brifysgol Aberystwyth ar **aber.ac.uk/apply**








Ysgol Fusnes Aberystwyth
Lefel C Adeilad Hugh Owen
Campws Penglais
Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DY

+44 (0) 1970 622 500

abs-enquiries@aber.ac.uk

/AberBusinessSch

/ABSAberUni

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2022.